YSGOL PEN RHYNCOCH

Ar brynhawn Mercher, Chwefror 15fed cynhaliwyd rhedeg noddedig yn yr ysgol a bu bob plentyn yn cymryd rhan. Canlyniad prynhawn hwyliog a difyr oedd casglu dros £800 i gronfa'r ysgol. Golyga hyn bod offer cyfrifiadurol bellach wedi ei brynu at ddefnydd addysgiadol ymhob dosbarth a mawr yw ein diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y fenter. Gwerthfawrogwn eich parodrwydd a'ch haelioni er lles y plant.

Yn ystod Chwefror cafodd timau hoci a phêl-droed yr ysgol wisgoedd newydd sbon, diolchi garedigrwydd y Brodyr Thomas a Chlwb Pêl-droed Penrhyncoch. Daeth Mr Eric Thomas a Mr Wyn Humphreys i'r ysgol un bore i gyflwyno'r gwisgoedd, y naill ar ran y Brodyr Thomas a'r llall ar ran y Clwb Pêl-droed. Ein diolch diffuant i chwi oll.

Cynhaliodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol noson gymdeithasol hynod o lwyddiannus yn ystod y mis. Cafwyd cyfle i weld fideo yn amlinellu oblygiadau ac amcanion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bu Mr Alan Wynne Jones o'r Swyddfa Addysg yn rhoi braslun o'r newidiadau arfaethiedig ym myd addysg yn sgîl cyflwyno'r cwrs addysg cenedlaethol. Cafodd y rhieni gyfle i ofyn cwestiynau a chael eglurhad ar nifer o bwyntiau pwysig. I ddiweddu treuliwyd orig yn cymdeithasu uwchben paned a baratowyd gan swyddogion y gymdeithas. Bu'n noson fuddiol mewn llawer ystyr i rieni ac athrawon.